Cymru
Swît 5a Tŷ Hodge
Plas y Neuadd
Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1DY

Wales
Suite 5a Hodge House
Guildhall Place
St Mary's Street
Cardiff CF10 1DY

Ffôn/Tel
029 2034 3413
Ffacs/Fax
029 2034 3427

Ffôn Testun/Textphone
020 7591 6255
Gwefan/Website
www.hlf.org.uk

cronfa dreftadaeth y loteri
heritage lottery fund

9 Tachwedd 2008

Annwyl gydweithiwr

**Grantiau Atgyweirio ar gyfer Mannau Addoli Cymru (RPOW)**

Mae'r llythyr yma wedi'i anfon at bob pensaer, cynrychiolydd DAC ac eraill sydd wedi paratoi neu roi cyngor ar baratoad ceisiadau RPOW Cronfa Dreftadaeth y Loteri yng Nghymru yn y gorffennol. Os oes yna bobl eraill yn eich sefydliad sydd hefyd yn ymdrin â phrosiectau RPOW yng Nghymru, buaswn yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn ymlaen atynt.

Efallai eich bod yn ymwybodol y bu i Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL), o 1 Ebrill 2008, symud i mewn i drydydd cyfnod Cynllun Strategol. Mae hyn wedi arwain at newidiadau i nifer o'n rhaglenni grant. Pwrpas y llythyr hwn yw tynnu eich sylw at brif elfennau'r rhaglen RPOW gan gynnwys newidiadau diweddar, ac i roi canllawiau cyffredinol ychwanegol i chi.

Mae gwybodaeth lawn ar gymhwysedd, meini prawf asesu a'r rhaglen RPOW diwygiedig yn gyffredinol ar gael ar ein gwefan;
http://www.hlf.org.uk/Welsh/HowToApply/OurGrantGivingProgrammes/RepairGrantsForPlacesOfWorship/Mannau+Addoli+Cymru.htm

- Bydd y rhaglen grant RPOW yng Nghymru'n parhau am y 5 blynedd nesaf gydag addasiadau bach.
- Ni fydd yna becynnau ymgeisio cyhoeddedig. O fis Chwefror 2009 byddwch yn gallu gwneud cais yn electronig trwy ddefnyddio'r dull ar-lein. I'r rheiny nad oes ganddynt fynediad at y rhyngrwyd, gallwn argraffu ac yna postio'r pecyn ymgeisio atoch.
- Bydd yna ddau rownd bidio cystadleuol y flwyddyn, a'r dyddiau cau yw **30 Medi** a **31 Mawrth** bob blwyddyn. Bydd ceisiadau anghyflawn neu hwyr yn cael eu dychwelyd. Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar ôl 6 mis.
  Mae'r ffocws yn dal i fod ar arian sydd ei angen ar frys i atgyweirio mannau addoli rhestredig yn unig ond nawr, mae mwy o bwyslais ar wella a chynyddu mynediad i'r cyhoedd. Bydd rhaid i fannau addoli ymroi i agor o leiaf 40 diwrnod y flwyddyn (14 diwrnod cynt) yn ogystal â diwrnodau addoli arferol. Hefyd, bydd ymgeiswyr yn cael eu hannog i ystyried ffyrdd eraill i ddatblygu mynediad i'r cyhoedd (llwybrau twristiaeth eglwysi, gweithgareddau cymunedol, gwefannau ac ati). Byddwn yn annog ymgeiswyr i wneud cais o dan ein proses dau rownd gydag arian datblygu fel y disgrifiwyd yn nodiadau cyflwyniad RPOW tt2-3.

**Mae yna gystadleuaeth enfawr am y rhaglen grant yma gyda chyllideb cyfyng iawn ar gael (*rhagwelir cyfanswm cyllideb o £400,000 ar gyfer 2009-2010*) felly er mai uchafswm y cais am grant CDL yw £100,000 rydym yn annog i bob ymgeisydd ofyn am lawer llai oddi wrth CDL. Rydym am i'n arian fynd mor bell â phosibl a dylai ymgeiswyr ffocysu ar eu blaenoriaethau uchaf yn unig, gan ystyried sut y gallent ddarparu eu prosiect mewn cyfnodau a sicrhau eu bod wedi ymroi amser i nodi a diogelu ffynonellau arian eraill.**

- Pan fyddant yn gwneud cais, mae angen i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi archwilio (neu yn y broses o archwilio), pob ffynhonnell arall posibl o arian partneriaeth gan gynnwys Cadw.
- Gan ystyried ein cyllideb lai, rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod y prosiect maent yn ei gyflwyno'n cynnig gwerth da am arian yn arbennig y costau sy'n gysylltiedig â ffioedd proffesiynol fel rhan o gais am arian datblygu.
    - **Cynlluniau Rheoli a Chynnal:** Rydym wedi cynhyrchu canllaw cynhwysfawr a thempled i helpu sefydliadau baratoi cynllun rheoli a chynnal hirdymor ar gyfer ei fan addoli. Felly, ni fyddem yn disgwyl gweld hyn fel agwedd sylweddol o'r cais am arian datblygu.
    - **Archwiliadau Mynediad:** Ni fyddwn yn ariannu gwaith i wella mynediad ffisegol i fodloni gofynion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Er y byddwn yn caniatau i archwiliad mynediad gael ei gynnal fel rhan o gais sy'n ceisio grant datblygu, hoffem weld hyn yn cael ei gynnal gan grŵp mynediad o'r sector gwirfoddol yn hytrach na mynd i ffioedd ymgynghori sylweddol. Gall grwpiau mynediad anabledd lleol ymgymryd ag archwiliadau mynediad o'ch man addoli a chynhyrchu adroddiad yn argymell gwelliannau i fynediad ffisegol a synhwyraidd i mewn i ac o gwmpas y man addoli. Gwefan: http://www.accessgroupresources.co.uk/wales
- Fel rhan o'n proses blaenoriaethu a gwneud penderfyniadau, byddwn yn parhau i ystyried lleoliad man addoli os yw mewn ardal o amddifadedd uchel neu mewn man blaenoriaeth CDL presennol (Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Caerffili a Thorfaen.)

**Nodiadau Atgoffa Cyffredinol:**

- Dim ond atgyweiriadau sydd wedi'u nodi mewn Adroddiad Arolygu Pob Pum Mlynedd (neu arolwg cyflwr) yn rai y mae eu hangen ar frys yn ystod y ddwy flynedd nesaf fydd yn cael eu hystyried. Lle bo adroddiad yn fwy na dwy flynedd oed, byddwn yn derbyn datganiad ategol diweddarach gan weithiwr proffesiynol i ddiweddaru'r adroddiad gwreiddiol.
- Dylid annog ymgeiswyr i ystyried ein proses dau rownd gydag arian datblygu. Ceisiadau rownd unigol yw'r eithriadau a dylid ond eu gwneud ar ôl trafod gyda staff CDL.
- Disgwylir i ymgeiswyr wneud defnydd llawn o'r Cynllun Mannau Addoli Rhestredig (LPW). Gweler tudalen 8 nodiadau cyflwyno RPOW.
- Nid yw eglwysi cadeiriol yn gymwys am grant RPOW ond dylid eu trafod gyda thîm datblygu CDL o dan ein rhaglen Grant Treftadaeth.

- Dylai'r person a chanddynt gyfrifoldeb cyffredinol am y man addoli (nid y prif berson cyswllt ar gyfer y cais) gydarwyddo ffurflenni. Ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru, y Corff Cynrychioliadol yw hwn, tra yn yr Eglwys Gatholig Rufeinig, dylai Ysgrifennydd ariannol yr Esgobaeth arwyddo. Sylwer, ar gyfer mannau addoli annibynnol, dylai 'corff cynrychioliadol neu gysylltiedig' sy'n gallu cadarnhau cyfrifoldeb cyfreithiol am yr adeilad gydlofnodi'r ffurflen. Bydd angen i ni weld tystiolaeth o berchnogaeth naill ai trwy gopi o'r brydles/ hysbysiad cofrestrfa tir neu Weithred Ymddiried fel rhan o'r dogfennau ategol.
- **Sylwer nad all y prif gyswllt a gynrychiolir yn y cais hefyd lofnodi'r datganiad!** (Rydym wedi nodi bod nifer sylweddol o geisiadau wedi'u llenwi'n anghywir o ran hyn.) Caniatewch ddigon o amser i'r datganiad a'r cydarwyddiad gael eu cwblhau cyn dyddiad cau'r cais.
- Rydym yn croesawu ymholiadau cyn-ymgeisio. Cysylltwch ag aelod o'n tîm datblygu am fwy o wybodaeth (029 2034 3413).

Yn gywir

Sarah Jeremiah
Swyddog Grantiau
Llinell uniongyrchol: 029 2023 4154

## Amserlen Cyflwyno Ceisiadau RPOW (Grantiau Atgyweirio ar gyfer Mannau Addoli)

| **Mawrth 2008**<br>Cyflwyno ceisiadau | | | **Medi 2008**<br>Penderfyniad Rownd 1 | | **Medi 2009**<br>Cyflwyno ceisiadau Rownd 2 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor arbenigol (allanol) | Cais am wybodaeth ychwanegol – os yn berthnasol<br><br>Dechrau asesiad mewnol CDL | Asesiad mewnol CDL | Cyfnod datblygu – 1 Blwyddyn | – a chyflwyniad cais Rownd 2<br><br>(Gall ymgeiswyr gyflwyno cais Rownd 2 cyn gynted a fod gofynion y cyfnod Datblygu wedi eu cyflawni) | Asesiad CDL – hyd at 4 mis – fel arfer yn gynt | Ionawr 2010 |
| **Medi 2008** – Cyflwyno ceisiadau | | | **Mawrth 2009** – Penderfyniad Rownd 1 | | **Mawrth 2010** - Cyflwyno ceisiadau Rownd 2 | |
| Cyngor arbenigol (allanol) | Cais am wybodaeth ychwanegol | Asesiad mewnol CDL | Cyfnod datblygu – 1 Blwyddyn | – a chyflwyniad cais Rownd 2<br><br>(Os dim Cyfnod Datblygu – yna dechrau posibl yn Medi 2009) | Asesiad CDL – 4 mis | |
| | | | | | | Gorffennaf 2010 |